PROSIECT 100 STORI

YSBRYDION

STRICTLY COME DANCING

Straeon o'r Ochr Dywyll

STORI FER

Mae yna ddau frawd sy'n efeilliaid, Liam sy'n gallu ymddiried mewn pobl ac yn chwilio am y pethau da ynddyn nhw a Joe, nad yw'n gallu ymddiried mewn pobl yn hawdd ac sy'n poeni am sut y bydd pobl yn ymddwyn a'i drin.

Fel awdur, rwy'n deall eu teimladau gan fod y ddau ohonyn nhw ynof i – fe hoffwn i pe gallwn i fod yn fwy o Liam, ond rwy'n credu bod Joe yn sleifio allan pan fyddaf yn poeni neu'n teimlo'n ansicr mewn sefyllfa

Pan maen nhw gyda'i gilydd mae Liam a Joe yn hoffi bod yn anturus, felly, un diwrnod maen nhw'n penderfynu mynd i archwilio'r hen stiwdio ddawns. Ar ôl cyrraedd yno maen nhw'n meddwl eu bod yn gweld ysbryd. Mae un brawd, Liam, yn meddwl y gallai'r ysbryd fod yn un cyfeillgar a'i fod yn ceisio eu helpu, mae gan y brawd arall, Joe, deimlad drwg am yr ysbryd ac yn meddwl y gallai fod eisiau eu brifo.

Rydw i wedi profi'r pethau hyn hefyd,
gan fy mod i wedi gweld presenoldeb tebyg i ysbryd yn fy nhŷ fy hun. Roeddwn i fel Liam, roeddwn i'n teimlo'n dawel gan nad ydw i'n gweld drwg mewn ysbrydion. Ond weithiau, rydw i'n gweld drygioni mewn pobl fel mae Joe yn ei weld, yn enwedig mewn pobl ifanc yn eu harddegau.

Rwy'n teimlo'n ansicr ac mae gen i ofn eu bod yn fygythiol ac eisiau fy mrifo.

Mae'r ddau frawd yn rhedeg o'r stiwdio ac yn mynd i ddweud wrth eu ffrindiau, ond does neb yn eu credu. Mae'r ffrindiau'n anfon y brodyr i ffwrdd ac yn eu trin fel pe baen nhw'n wahanol ac yn rhyfedd

Rwy'n teimlo hyn yn fy mywyd i, felly gallaf ddeall bod y ddau frawd yn teimlo'n drist ac yn unig, oherwydd gyda fy Aspergers gallaf deimlo'n ynysig a meddwl nad oes neb yn fy neall.

Mae'r brodyr yn dychwelyd i'r Stiwdio Ddawns i geisio profi bod yr ysbryd yn real ac i ddangos y gwir i bobl. Ond ar ôl cyrraedd, mae'r drychau'n newid ac yn dangos yr holl bethau mae ar y bechgyn eu hofn. Y pethau y mae gen i eu hofn yw nodwyddau i roi pigiadau a thynnu gwaed, a gall rhai pobl ddefnyddio ofnau i fod yn gas fel y delweddau yn y drychau.

Er mawr syndod i'r brodyr, mae'r ysbryd yn eu helpu i oresgyn eu hofnau. Dynes o'r enw Barbra yw'r ysbryd. Doedd hi eisiau dychryn y brodyr, dim ond eu helpu i oresgyn eu hofnau trwy eu hwynebu.

Mae hyn wedi digwydd i mi yn ystod fy mywyd trwy gymorth fy mam, Lisa a Bev fy nhiwtoriaid a fy nain – maen nhw i gyd wedi dangos i mi ei bod hi'n bosibl goresgyn ofnau ac mae'n bosibl i bobl eich helpu. Mae llawer o fenywod cryf wedi bod yn rhan o fy mywyd i.

Ond mae tro yng nghynffon y stori hon. Dydy Barbra yr ysbryd ddim yn helpu'r bechgyn ond yn eu twyllo i'w cadw yn y stiwdio am byth. Nid ysbryd mohoni ond ellyll! Rydw i wrth fy modd gyda hyn am straeon a ffilmiau yn fy mywyd. Pethau fel tro mewn plot wnaeth i mi eisiau bod yn awdur, gwneuthurwr ffilmiau, cynhyrchydd neu gyfarwyddwr.

Pwy all helpu'r bechgyn, ble mae eu teulu a'u ffrindiau? Doedden nhw ddim yn credu'r brodyr, felly sut fyddan nhw'n helpu?

Mae gen i deulu cefnogol iawn ac ychydig o ffrindiau agos. Fe hoffwn i feddwl y byddai pobl yn fy nghredu i pe bawn i'n rhannu rhywbeth gyda nhw, ac os na, y byddwn i'n gallu eu trafod.

O'r diwedd mae'r brodyr yn siarad â'r rhai sydd o'u cwmpas ac yn gofyn iddyn nhw wrando arnyn nhw. Maen nhw i gyd yn mynd fel un criw i'r stiwdio ddawns ac mae Liam a Joe yn herio Barbra. Mae eu teulu a'u ffrindiau'n gweld nad oedd Liam a Joe yn dweud celwydd ac yn eu helpu i ddianc trwy'r ffenestr. Mae'r brodyr yn dweud na fyddan nhw byth yn mynd yn ôl i'r stiwdio ddawns.

Rwy'n gobeithio pe byddwn i'n rhoi addewid neu'n dweud na fyddwn i'n gwneud rhywbeth a fyddai'n fy rhoi mewn perygl, y byddai fy nheulu a fy ffrindiau yn fy nghredu ac yn fy nghefnogi.

Mae pobl o'm cwmpas bob amser yn dweud bod angen bod yn ddewr, peidio ag ymddiried yn rhy gyflym, ac i ofyn am help gan bobl. Rydw i'n ceisio gwneud hyn bob dydd. Dydw i ddim yn llwyddo bob amser, ond rydym ni i gyd yn fodau dynol.



Mi fyddwn i'n hofi i ddarllenwyr fy stori wybod ei bod hi'n iawn gwneud camgymeriadau, ac mai dysgu oddi wrthyn nhw sy'n bwysig.